Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru

Mehefin 2020



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd Cymru: **www.senedd.cymru/SeneddArchwilio**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddArchwilio@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

# Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru

Mehefin 2020

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddArchwilio

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Nick Ramsay AS**
Ceidwadwyr Cymreig

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Gareth Bennett AS**
Annibynnol



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

---

Roedd Mohammad Asghar AS (a elwid yn Oscar) yn Aelod o'r Pwyllgor yn ystor yr ymchwiliad hwn, ond er tristwch mawr bu farw ar 16 Mehefin 2020.



**Mohammad Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**1. Cefndir** ..... **6**

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Gynllunio ..... 8

Cwmpas Ymchwiliad y Pwyllgor ..... 9

**2. Canfyddiadau'r Pwyllgor** ..... **10**

Gwytnwch Gwasanaethau Cynllunio ..... 10

Trin a thrafod ceisiadau cynllunio a phenderfynu arnynt ..... 12

Cynnwys pobl yn y broses gynllunio i wella cymunedau ..... 14

Cytundebau adran 106 ..... 17

Cynllunio a Llesiant ..... 19

**Argymhellion** ..... **22**

**Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.** ..... **24**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae cynllunio yn chwarae rhan allweddol wrth wella ansawdd bywyd pobl a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Nod pob agwedd ar gynllunio yw creu lleoedd llwyddiannus lle mae pobl eisiau gweithio, siopa, byw neu ymweld â hwy, lle mae busnesau'n ffynnu a lle mae'r amgylchedd naturiol yn cael ei barchu a'i wella. Fel cyfrwng rhwng gwrthdaro buddiannau ac amcanion trwy broses ddemocrataidd, gall cynllunio ennyn llwyddiant economaidd ynghyd â nodau datblygu cynaliadwy eraill.


Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno diwygiadau pwysig i'r broses gynllunio yng Nghymru, i'w helpu i gyflawni'r amcanion hyn. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a'r ddeddf arloesol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn newidiadau sylweddol ac, ar y cyfan, maent i'w croesawu gan y byddant yn helpu Cymru i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mawr sy'n ei hwynebu; sef globaleiddio, twf yn y boblogaeth, newid yn yr hinsawdd, pryder cynyddol ynghylch gorddefnyddio adnoddau, a newid ein dull o ymdrin â materion bioamrywiaeth. Nid yw'r un o'r newidiadau hyn yn newydd, ond gyda'i gilydd maent yn awgrymu y bydd y materion y mae'r system gynllunio yn mynd i'r afael â hwy yn mynd yn anoddach.

Cytunodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gynnal yr ymchwiliad hwn i ystyried a yw'r newidiadau a gyflwynwyd i'r broses gynllunio yn effeithiol ac yn effeithlon. Yn benodol, roeddem am ystyried a yw uchelgais cynllunio sy'n gyrru agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei gwireddu. I lywio ein gwaith, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ac ystod o randdeiliaid allweddol sy'n gweithio o fewn y system gynllunio. Roedd ein hymchwiliad yn ystyried sut mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn perfformio ar hyn o bryd a lle mae angen gwella perfformiad ac effaith.

Mae ein hadroddiad yn gwneud nifer o argymhellion gyda'r nod o fynd i'r afael â rhai materion pwysig a bydd yn helpu i gryfhau gwytnwch mewn gwasanaethau; gwella'r broses o wneud penderfyniadau; cefnogi gwell cyfranogiad gan gynllunwyr a datblygwyr gyda dinasyddion a chymunedau; a sicrhau bod cynllunio yn chwarae ei ran lawn wrth ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r argymhellion hyn yn bwysig i bob un ohonom gan fod cynllunio'n ganolog i fywyd pawb.

# 1. Cefndir

**1.** Yng Nghymru, mae 25 o 'Awdurdodau Cynllunio Lleol,' sef y 22 Awdurdod Unedol a'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol dri phrif rôl:




**2.** Mae gan yr 'Awdurdod Cynllunio Lleol' ran hanfodol yn y broses o benderfynu ynghylch y datblygiadau sydd eu hangen ac ymhle; y meysydd y mae angen eu diogelu neu eu gwella; a bydd hefyd yn asesu a yw datblygiad arfaethedig yn addas. Dyma brif gyfrifoldebau Awdurdodau Cynllunio Lleol felly:

- **Paratoi cynllun datblygu lleol**: Fframwaith yw hwn ar gyfer datblygu ardal yn y dyfodol gan ddiffinio polisïau strategol, y fframwaith ar gyfer cynlluniau cymdogaeth, dyraniadau tir, gofynion seilwaith, anghenion tai, gofynion o ran diogelu'r amgylchedd a mesurau i addasu i newid hinsawdd. Y cynlluniau datblygu lleol yw'r man cychwyn wrth ystyried a ddylid cymeradwyo ceisiadau cynllunio.

- **Penderfynu ar geisiadau cynllunio**: Gwneir penderfyniadau ynghylch ceisiadau syml o dan bwerau a ddirprwyir i swyddogion cynllunio. Bydd pwyllgor cynllunio, sy'n cynnwys aelodau etholedig a phenodedig, yn penderfynu ar geisiadau mwy arwyddocaol neu ddadleuol. Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol

ymgynghori â'r gymuned leol, ymgyngoreion statudol ac ymgyngoreion anstatudol.

- Gorfodi: Byddant yn gweithredu'n gymesur wrth ymateb i achosion posibl o dorri rheoliadau cynllunio.

- **Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol:** Caiff Canllawiau Cynllunio Atodol eu llunio i roi mwy o fanylion am sut y bydd Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod yn cael ei gymhwyso yng nghyd-destun lleoedd neu faterion penodol.

- Cefnogi 'Cynlluniau Lleoedd': Mae Cynlluniau Bro yn ddogfennau anstatudol. Mae modd eu llunio ar gais cymuned leol ac maent yn arf pwerus i annog cydweithredu ac i wella lles a chreu lleoedd. Dylai Cynlluniau Lleoedd gefnogi'r broses o gyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol a gallent gael eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol.

**3.** Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol hefyd weithredu'n unol â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), sef fframwaith strategol 20 mlynedd sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Mae'r FfDC yn ymdrin â materion eang gan gynnwys yr economi, tai a'r amgylchedd ar gyfer Cymru gyfan. Mae'n dangos lle y dylid bwrw ymlaen â datblygiadau o bwys cenedlaethol fel prosiectau ynni, trafnidiaeth, dŵr a gwastraff. Mae'r FfDC yn dangos lle y dylai twf ddigwydd, pa seilwaith a gwasanaethau sydd eu hangen a sut y gall Cymru helpu i frwydro yn erbyn newid hinsawdd. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad o fis Awst tan fis Tachwedd 2019 ar yr FfDC i gwmpasu'r cyfnod rhwng 2020 a 2040. Yn ogystal â thrafod y materion cynllunio sylweddol sy'n effeithio ar Gymru, bydd yr FfDC yn effeithio ar natur a chyfeiriad polisi cynllunio lleol yng Nghymru yn y dyfodol, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol.

**4.** Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wedi dweud mai cynllunio yw un o'i meysydd blaenoriaeth – sy'n dangos cymaint yw'r diddordeb mewn materion cynllunio a'r ffaith bod pobl a chymunedau'n dweud wrthi eu bod yn aml yn teimlo bod datblygiadau'n cael eu gorfodi arnynt yn erbyn eu hewyllys a heb iddynt gael eu cynnwys yn y penderfyniadau.

**5.** Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfrifoldebau i ystyried a oes rhywbeth o'i le yn y modd yr aeth awdurdod cynllunio lleol ati i benderfynu ynghylch cais datblygu ac mae wedi cynhyrchu taflen ffeithiau ceisiadau cynllunio yn amlinellu'r hyn y gall, ac na all, ymchwilio iddo. O ganlyniad, mae'r Ombwdsmon yn gyfrifol am ystyried y materion a godir gan ddinasyddion ynghylch ceisiadau cynllunio unigol.

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Gynllunio

**6.** Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ei adroddiad ar effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru[1] ym mis Mehefin 2019. Mae'r adroddiad yn ystyried i ba raddau y mae awdurdodau cynllunio lleol yn llwyddo i gyflawni eu cyfrifoldebau newydd a sefydlwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015[2] a sut mae gwasanaethau cynllunio yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[3] Dyma rai o brif negeseuon yr adroddiad:

- Mae Awdurdodau Cynllunio yn ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd oherwydd cymhlethdodau'r system gynllunio;
- Mae capasiti annigonol a chwymp mewn adnoddau yn erydu gwytnwch awdurdodau cynllunio;
- Mae amseroldeb ac ansawdd prosesau penderfynu'n amrywio'n eang ac mae perfformiad yn wael; ac
- Mae angen gwaith pellach i fodloni gofynion llesiant deddfwriaeth a pholisi.

**7.** Yn ei adroddiad, gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol bum argymhelliad i helpu i gefnogi awdurdodau cynllunio lleol, gan ganolbwyntio ar:

- gwella sut maent yn cynnwys rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau ac ystyried dewisiadau;
- mynd i'r afael â diffygion mewn cyllid a chydweithio i gynyddu capasiti;
- cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau; a
- chreu gweledigaeth gliriach a mwy uchelgeisiol ar gyfer eu hardal leol; ac

[1] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru, Mehefin 2019

[2] Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

[3] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- adolygu taliadau ar gyfer rheoli datblygiadau a gwella perfformiad yr awdurdodau cynllunio lleol.

## Cwmpas Ymchwiliad y Pwyllgor

**8.** Cytunodd y Pwyllgor i'w ymchwiliad ganolbwyntio ar y meysydd a ganlyn:

- Gwytnwch gwasanaethau cynllunio;
- Trin a thrafod ceisiadau cynllunio a phenderfynu arnynt;
- Cynnwys cymunedau a'r effaith arnynt; a
- Cynllunio a llesiant.

**9.** Yn dilyn y sesiynau tystiolaeth, mae canfyddiadau allweddol ymchwiliad y Pwyllgor wedi'u nodi isod ac yn gorffen gydag argymhellion i ennyn gwelliant.

**10.** Nid yw'r adroddiad hwn yn amcanu i ailadrodd y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar helaeth a gawsom – gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar a'r dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd yn llawn yma:

https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25600

# 2. Canfyddiadau'r Pwyllgor

## Gwytnwch Gwasanaethau Cynllunio

**11.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y cyfraniad y gall cynllunio ei wneud i gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fodd bynnag, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi profi gostyngiad sylweddol o ran capasiti ac maent yn ei chael yn anodd cyflawni eu dyletswyddau statudol.

**12.** Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod yr holl wasanaethau cynllunio – polisi, datblygu a rheoli adeiladu – wedi profi toriadau sylweddol mewn gwariant ers 2008-09, gyda chyllidebau wedi gostwng 50% mewn termau real, gan ystyried chwyddiant. Mae gwariant net wedi gostwng o £45 miliwn yn 2008-09 i £22.8 miliwn yn 2017-18. Gwnaed y toriadau mwyaf i gyllidebau rheoli datblygu, lle mae'r gwariant wedi gostwng 59%. Gadawyd y penderfyniad o ran blaenoriaethu cyllid ar wasanaethau cynllunio yn nwylo pob Awdurdod Cynllunio Lleol annibynnol.

Mae hyn wedi arwain at wneud y gwasanaeth yn fwy ymylol fyth. Ein casgliad cyffredinol yw bod Cynllunio yn hollbwysig ond ar hyn o bryd nid yw'n gallu cyflawni amcanion y Ddeddf Cynllunio, Deddf yr Amgylchedd na Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oherwydd gostyngiad mewn adnoddau.

**13.** Roedd y dystiolaeth a glywsom yn dangos bod y system gynllunio dan straen ac nad yw'n cyflawni cystal ag y gallai ac y dylai. Yn gyffredinol, nododd yr holl randdeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol nad oes gan wasanaethau cynllunio ddigon o gapasiti, sgiliau nac arbenigedd i gyflawni eu holl gyfrifoldebau yn effeithiol. Mae hyn, ynghyd â chymhlethdodau Cynllunio a'r gofynion newydd a roddir ar wasanaethau o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a disgwyliadau llesiant ehangach y Comisiynydd, yn golygu eu bod yn cael trafferth.

**14.** Nododd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru fod y gostyngiad mewn cyllid ac adnoddau ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi arwain at fwy o gystadleuaeth gan gyflogwyr y sector preifat, ac mae llawer o raddedigion cynllunio newydd yn dewis gweithio i ddatblygwyr ac ymgynghorwyr cynllunio yn hytrach nag Awdurdodau Cynllunio Lleol. Ynghyd â'r ffaith bod y swyddog cynllunio uchaf mewn awdurdodau lleol fel arfer ar lefel y drydedd haen neu is, nid ystyrir bod y proffesiwn yn chwarae rhan bwysig er gwaethaf ei bwysigrwydd

wrth wireddu nifer o amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn gwirionedd.

**15.** Er gwaethaf gweld cyllidebau yn cael eu gwasgu a niferoedd staff yn gostwng, nid yw'r graddau cyfyngedig o gydweithio hyd yma wedi galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud arbedion sylweddol i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyfredol wrth eu cryfhau a'u gwella. Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn cydnabod yr effaith yn sgil llai o arian, ond nid oedd Awdurdodau Cynllunio Lleol eisiau gweld newidiadau mawr yn cael eu gwneud. Er enghraifft, roeddent o blaid cadw 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol gyda'r un pwerau, dyletswyddau a strwythurau cyflawni yn fras, er y byddai llai o adnoddau i gyflawni eu cyfrifoldebau ehangach.

**16.** Clywodd y Pwyllgor fod Awdurdodau Cynllunio Lleol gan mwyaf yn parhau i gyflawni fel y maent wedi ei wneud erioed – gan geisio gwneud popeth y maent yn gyfrifol amdano ond gyda llai o adnoddau. O ganlyniad, mae perfformiad mewn rhai meysydd gwaith, fel gorfodi a chreu lleoedd, yn arbennig o wael.

**17.** Mae tystiolaeth a glywyd gan y Pwyllgor yn awgrymu bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn fwy cefnogol i gadw'r status quo yn hytrach nag ystyried y potensial i uno Awdurdodau Cynllunio Lleol, creu Cyd-bwyllgorau Cynllunio neu Gynlluniau Datblygu Lleol ar y cyd. Roedd holl gynrychiolwyr yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn erbyn gweld Gweinidogion Cymru yn defnyddio'u pwerau i newid y strwythurau presennol. Er enghraifft, roedd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn parhau i wrthwynebu cydweithredu, a thu hwnt i'r cydweithio a sefydlwyd eisoes, nid oeddent yn gweld gwerth mewn cydweithredu pellach.

**18.** Cyflwynodd rhai tystion bryderon bod mwy o gydweithredu a chreu Cynlluniau Datblygu Strategol (yn ogystal â Chynlluniau Datblygu Lleol) yn canolbwyntio'n ormodol ar faterion rhanbarthol ac y byddent yn ymestyn adnoddau ymhellach, gan arwain at Awdurdodau Cynllunio Lleol yn colli golwg ar y cyd-destun lleol iawn ar lefel gymunedol. Fodd bynnag, nid oedd rhai tystion yn ffafrio cynllunio ar lefel gymunedol a Chreu Lleoedd trwy Gynlluniau Lleoedd oherwydd eu bod yn canolbwyntio'n ormodol ar y materion lefel micro. Mae hyn er gwaethaf y cydnabyddir Cynlluniau Lleoedd fel cyfle i gynnwys cymunedau yn fwy effeithiol wrth gynllunio eu gwaith gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn y dyfodol.

**19.** Nododd y Pwyllgor yr ymateb cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru[4] i ganfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r camau y maent wedi'u cymryd i helpu i wella gwytnwch. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynnydd o 20% mewn Ffioedd Cynllunio i fynd i'r afael â'r materion ynghylch diffyg a amlygwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Byddai cynnydd o 20% ar ffioedd rheoli datblygu yn rhoi cynnydd incwm o £3.5 miliwn (gan ddefnyddio ffigurau gwaelodlin 2017-18 yn yr adroddiad). Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymgynghorwyr i archwilio opsiynau ar gyfer symud tuag at adfer costau llawn yng ngwasanaethau Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Er gwaethaf y mesurau cadarnhaol hyn, mae tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn awgrymu nad yw elfennau o'r system gynllunio yn gweithio fel y gallent ac fel y dylent (er enghraifft, cynnwys gwaith sy'n cysylltu'n effeithiol gyda chymunedau a gwaith gorfodi) ac nid oes cytundeb ar sut i fynd i'r afael â hyn. a chryfhau gwytnwch a chapasiti.

**20.** Roedd tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir nad yw Gweinidogion Cymru yn rhagweld defnyddio eu pwerau i uno Awdurdodau na bod angen Cynlluniau Datblygu ar y cyd, ond eu bod yn bwriadu creu cyd-bwyllgorau strategol eraill o dan y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) cyfredol.[5]

**21.** Casgliad cyffredinol y Pwyllgor yw y derbynnir nad oes gan y diwydiant cynllunio ddigon o adnoddau i wneud yr holl bethau y mae'n ofynnol iddo eu gwneud, ond nid yw'r sawl sy'n cyflawni gwaith cynllunio o blaid cydweithredu a symud i fodel gweithio rhanbarthol, a all ryddhau adnoddau a gwneud gwell defnydd ohonynt. Fodd bynnag, os yw Cynllunio i chwarae'r rôl a ragwelir wrth sicrhau datblygiad cynaliadwy ac wrth wella llesiant, yna mae angen newid. Nid yw cadw at y status quo yn opsiwn gan fod Cynllunio yn rhy bwysig i beidio â llwyddo.

## Trin a thrafod ceisiadau cynllunio a phenderfynu arnynt

**22.** Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi aros yn sefydlog, sef rhyw 24,000 y flwyddyn ar lefel genedlaethol, ond mae llai o geisiadau cynllunio'n cael eu prosesu ar amser, mae cyfran yr apeliadau a wrthdrowyd yn parhau i fod yn uchel ac mae'r gwaith gorfodi yn araf ar y cyfan.

---

[4] Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, 13 Rhagfyr 2019

[5] Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (ar adeg cyhoeddi'r Adroddiad hwn, roedd y Bil yng Nghyfnod 2)

Mae gwella effeithlonrwydd a chyflymder y broses gwneud penderfyniadau o fewn y system gynllunio, gan gynnwys cryfhau gwaith Pwyllgorau Cynllunio, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod Cynllunio yn cael effaith gadarnhaol ar ddinasyddion a chymunedau ledled Cymru.

**23.** Clywodd y Pwyllgor fod nifer o wendidau i'r mesurau perfformiad cyfredol a gesglir gan Lywodraeth Cymru. Yn gyntaf, maent yn canolbwyntio'n ormodol ar fesur mewnbynnau, allbynnau a chofnodi amser o'r dechrau i'r diwedd. O ganlyniad, mae ganddynt ffocws cyfyngedig ar ansawdd, ac nid ydynt yn galluogi dealltwriaeth nac yn cynnig darlun o'r effaith ar lesiant. Yn ail, defnyddir y dangosyddion i farnu pa mor dda y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau cynllunio, ond nid ydynt yn adlewyrchu'r oedi a achosir gan gyrff trydydd parti. Yn benodol, datblygwyr, ymgynghorwyr statudol fel cwmnïau cyfleustodau a Chyfoeth Naturiol Cymru. O ganlyniad, nid ydynt yn fesur da o effeithlonrwydd prosesau gwneud penderfyniadau a rheoli ceisiadau gan Awdurdodau Cynllunio Lleol.

**24.** Nid oedd y tystion o'r farn bod perfformiad ar apeliadau – lle collir tua thraean yr apeliadau – yn wael. Gyda gweithgareddau gorfodi, roedd tystion Awdurdodau Cynllunio Lleol yn teimlo, o ystyried nad yw'r gwasanaeth yn orfodol a bod pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu sut y bydd yn 'plismona' y maes hwn, nad oedd yn ddefnyddiol cymharu perfformiad. Waeth bynnag, ceir ystod eang o lefelau perfformiad ac mae pobl ledled Cymru yn wynebu safonau a thegwch gwasanaeth gwahanol iawn. Er enghraifft, roedd yr amser cyfartalog ar draws yr holl Awdurdodau Cynllunio Lleol i ddatrys achosion gorfodi yn 2018-19 yn amrywio o 7.3 diwrnod yng Nghaerdydd i 531.5 diwrnod yng Ngheredigion.[6]

**25.** Mae'r adroddiad trosolwg cenedlaethol diweddaraf [Rhagfyr 2019] yn tynnu sylw at ble mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn methu â chyflawni eu gofynion o dan y ddeddfwriaeth newydd. Er enghraifft, mae tudalen 10 yn dangos nad yw 13 o'r 22 Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau ymgynghori o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015; ac mae tudalen 13 yn nodi nad oes gan 11 o'r 22 cyngor ddarpariaeth TGCh ddigonol i allu adrodd ar eu perfformiad llawn.

**26.** Clywodd y Pwyllgor fod Pwyllgorau Cynllunio yn amrywio o ran gallu ac ansawdd eu prosesau gwneud penderfyniadau, ond yn gyffredinol nid oedd tystion o'r farn bod hyn yn bryder mawr ac eithrio perfformiad nifer fach o Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae hyn yn gwrthdaro â chanfyddiadau adroddiad

[6] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio Cymru Gyfan 2018-19, Ffigur 44, Tudalen 52, Rhagfyr 2019

yr Archwilydd Cyffredinol a nododd rai gwendidau mawr. Amlygodd tystiolaeth gan Awdurdodau Cynllunio Lleol a Llywodraeth Cymru bryder bod rhai Pwyllgorau Cynllunio yn dewis peidio â gorfodi cytundebau adran 106, nad ydynt yn gweithredu yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig ac y gallant ganolbwyntio'n ormodol ar faterion plwyfol.

**27.** Clywodd y Pwyllgor fod trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn dod yn llawer mwy cymhleth gyda Gweinidogion Cymru bellach yn rhan o'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio mawr yn hytrach nag Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol. Er y disgwylir y bydd y newid hwn yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu Awdurdodau Cynllunio Lleol o ran adnoddau, cododd sawl tyst bryderon y bydd y canoli hwn yn gwanhau'r graddau y gwneir penderfyniadau lleol ac yn gwanhau atebolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol. Yn ogystal, gwelwyd hefyd fod y symudiad i ranbartholi gyda chyd-bwyllgorau a Chynlluniau Datblygu Strategol yn ymestyn capasiti ymhellach a chodwyd pryderon gan nifer y bydd y newidiadau hyn yn gwneud y system Gynllunio sydd eisoes yn gymhleth, yn fwy cymhleth fyth ac ni fydd yn arwain at unrhyw welliant sylweddol.

Mae'r Pwyllgor yn credu nad yw cadw at y status quo yn ymarferol o ystyried y gostyngiad mewn capasiti swyddogion cynllunio. Er y bydd rhywfaint yn fwy o gymhlethdod i'r system gynllunio yn sgil ailgydbwyso cyfrifoldebau gyda rôl gymeradwyo amlycach i Lywodraeth Cymru a chyda chyflwyno rhagor o waith cynllunio rhanbarthol, bydd hyn hefyd yn gwella gwytnwch ac yn helpu i gefnogi pob lefel o'r system gynllunio i gyflawni ei chyfrifoldebau eang.

## Cynnwys pobl yn y broses gynllunio i wella cymunedau

**28.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod cynllunio yn fwy na rhywbeth sy'n ticio blychau'n unig, ac yn aml mae'n gofyn am grebwyll a dychymyg. Bydd angen i Awdurdod Cynllunio Lleol effeithiol fod â gweledigaeth glir o sut y byddant yn gweithio yn y tymor canolig i'r tymor hir i wella eu cymunedau, a bydd yn ceisio ysbrydoli ac ysgogi pobl i fod eisiau cymryd rhan wrth helpu i lunio a gwella eu hardal.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod llawer mwy o waith i Awdurdodau Cynllunio Lleol ei wneud o ran sicrhau bod trefniadau cadarn ac effeithiol ar waith i gynnwys pobl yn y broses gynllunio.

**29.** Mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol gyfrifoldeb i sicrhau bod pobl yn deall pwysigrwydd Cynllunio ac annog cymunedau i gymryd rhan ragweithiol trwy bwysleisio'r effaith gadarnhaol y gall cynllunio ei chael ar eu bywydau. Roedd pob

tyst yn cydnabod bod cryn hanes o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cysylltu â dinasyddion, ond mae hyn yn cael ei ystyried yn aneffeithiol yn gyffredinol oherwydd bod y dulliau a ddefnyddir i hysbysu a chynnwys pobl yn aflwyddiannus ar y cyfan. Er enghraifft, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod 60% o uwch swyddogion cynllunio yn teimlo nad yw'r cyhoedd yn deall sut mae'r system gynllunio yn gweithio.[7]

**30.** Nododd tystion y gall hyn fod yn anodd oherwydd bod y canllawiau ar ymgysylltu ac ymgynghori wedi dyddio (mae'n deillio o adroddiad Skeffington - *People and Planning: the Report of the Committee on Public Participation in Planning* – a gyhoeddwyd ym 1969[8]) ac mae'n canolbwyntio'n ormodol ar ddulliau ymgysylltu traddodiadol i enghreifftiau penodol. Mae'r offeryn data[9] a gyhoeddwyd ochr yn ochr ag adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dangos bod llai na thraean y cyhoedd yn ei chael hi'n hawdd cyrchu gwybodaeth am ddefnyddio gwasanaethau cynllunio.

**31.** Un her fawr yw cael datblygwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau ymgynghori cychwynnol a thrin hwn fel ymarfer difrifol ac ystyrlon. Yn rhan o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, gwnaeth Llywodraeth Cymru hi'n orfodol i ddatblygwyr ymgynghori â chymunedau lleol cyn gwneud cais am ddatblygiadau mwy neu 'ddatblygiadau sylweddol'. Clywodd y Pwyllgor gan dystion, er bod hwn yn bolisi canmoladwy, nad yw'n gweithio ac nad yw'n gwella ansawdd a pherthnasedd datblygiadau newydd i bobl leol a'r gymuned ehangach.

**32.** Er enghraifft, mae'r cam ymgynghori yn digwydd cyn gwneud cais am gymeradwyaeth, a bydd llawer o'r gwaith y gall cymunedau ac unigolion ddylanwadu arno wedi digwydd heb fawr o fewnbwn gan neb. Yn ôl y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor, gall y broses hefyd gamarwain y cyhoedd i gredu y gallant ddylanwadu ar ddatblygiadau newydd pan nad yw tystiolaeth i'r Pwyllgor yn awgrymu bod llawer o ganlyniadau newidiol o waith ymgysylltu â'r gymuned. Yn aml, nid yw'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ymwybodol o'r hyn y mae'r datblygwr yn ei wneud o ran ymgynghori ac nid oes ganddynt unrhyw wybodaeth am adborth a sut y gwnaed hynny (neu beidio). Fel proses, nid yw'n gweithio, a

---

[7] Offeryn data Gwasanaethau Cynllunio Swyddfa Archwilio Cymru, Mehefin 2019

[8] Roedd Adroddiad Skeffington, '*People and Planning*', yn adroddiad gan y Pwyllgor Cyfranogiad Cyhoeddus ynghylch cynllunio, dan gadeiryddiaeth yr Aelod Seneddol Arthur Skeffington. Penodwyd y Pwyllgor ym 1968, i asesu sut y gallai'r cyhoedd chwarae mwy o ran wrth greu cynlluniau datblygu lleol. Sefydlwyd y pwyllgor yn dilyn y ddeddfwriaeth sylfaenol ym 1968, a chyhoeddodd ei adroddiad ym 1969.

[9] Offeryn Data Gwasanaethau Cynllunio, Mehefin 2019

chlywsom nad yw Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu dylanwadu ar ddatblygwyr na'u newid.

**33.** Teimlai nifer o dystion, yn enwedig Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, fod Cynlluniau Lleoedd yn ffordd dda o ymgysylltu â chymunedau a'u cynnwys. Yn ôl tystiolaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gall Cynllun Lle effeithiol fod y bont rhwng cymunedau ac Awdurdodau Cynllunio Lleol a helpu i gynnig dewisiadau cynllunio sy'n diwallu anghenion a dyheadau'r gymuned. Ategwyd hyn gan Lywodraeth Cymru sy'n gweld creu lleoedd yn hanfodol i wneud y Cynllunio'n ganolog i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**34.** Fodd bynnag, er cydnabod effaith gadarnhaol bosibl cynllunio lleoedd, mynegwyd pryderon gan sawl tyst:

- Nododd sawl Awdurdod Cynllunio Lleol y gall Cynlluniau Lleoedd fod yn ddwys o ran adnoddau a bod angen iddynt alinio â'r Cynllun Datblygu Lleol os ydynt am gael effaith gadarnhaol ar ddinasyddion. O ystyried y toriadau yng nghyllidebau'r Awdurdod, nododd tystion fod hyn yn uchelgais afrealistig;

- Yn ail, mae Cynlluniau Lleoedd yn ddewisol a dim ond pan fyddant yn cael eu mabwysiadu y maent yn dod yn ystyriaeth berthnasol ym mhenderfyniadau'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae sicrhau bod Cynlluniau Lleoedd yn greiddiol i'r broses gwneud penderfyniadau yn gofyn i Lywodraeth Cymru eu gwneud yn ystyriaeth statudol yn yr un modd a Chynlluniau Cymdogaeth yn Lloegr. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru nad yw'n cefnogi gwneud cynlluniau lleoedd yn statudol fel y gwneir yn Lloegr; ac

- Yn drydydd, roedd tystion, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn glir mai mater i'r gymuned yw trefnu a darparu Cynlluniau Lleoedd a Chreu Lleoedd o fewn eu hardal. Roedd y tystion yn cydnabod, fodd bynnag, y byddai cymunedau yn ei chael yn anodd datblygu Cynlluniau Lleoedd heb gefnogaeth a chymorth. Teimlai'r Pwyllgor mai afrealistig oedd awgrym Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Cynllunio Lleol ailddyrannu adnoddau o waith arall (statudol) i gefnogi gwaith i gynnwys y gymuned.

**35.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod Cynlluniau Lleoedd a chreu lleoedd yn allweddol i gael cefnogaeth pobl yn y gymuned, er mwyn sicrhau bod Cynllunio yn digwydd gyda chymunedau cynwysedig a chysylltiedig ac nid yn rhywbeth a osodir ar gyfer y gymuned. Fodd bynnag, gan nad oes statws statudol i Gynlluniau

Lleoedd, nid oes adnoddau digonol i'w datblygu ac nid oes awydd gan Lywodraeth Cymru i newid hyn, mae'r Pwyllgor yn credu eu bod yn annhebygol o gael eu datblygu. Os yw Cynllunio Lleoedd yn opsiwn da i gynnwys pobl yn y broses gynllunio ac a arweinir gan y gymuned, yna mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen rhoi mwy o statws iddo, ynghyd â rhoi rhagor o adnoddau iddo a'i wneud yn ganolog i'r Cynllun Datblygu Lleol.

## Cytundebau adran 106

**36.** Mae dwy ffurf o gytundeb cynllunio rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol a datblygwyr sy'n pennu sut y bydd datblygiadau newydd yn cyfrannu'n ariannol tuag at yr uwchraddio a'r gwelliant angenrheidiol mewn seilwaith lleol. Dyma'r ddwy ffurf o gytundeb:

- Mae cytundeb adran 106 (a.106) yn gytundeb rhwng datblygwr ac awdurdod cynllunio lleol ynghylch y mesurau y mae'n rhaid i'r datblygwr eu cymryd i leihau eu heffaith ar y gymuned. Mae cytundeb adran 106 wedi'i ddylunio i wneud datblygiad yn bosibl lle na fyddai'n bosibl fel arall, drwy sicrhau cyfaddawdau a chyfraniadau gan y datblygwr. Mae hyn yn rhan o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac
- Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ('yr ardoll') yn ffi y gellir ei chodi gan awdurdodau lleol ar ddatblygiad newydd tyn eu hardal i helpu cyflawni'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi datblygiad yn yr ardal. Nid yw'r ardoll ond yn gymwys mewn ardaloedd lle mae'r awdurdod lleol wedi ymgynghori a chymeradwyo cynllun ffioedd sy'n gosod cyfraddau'r ardollau, a lle bo'r cynllun hwnnw ar wefan yr awdurdod. Mae'n bosibl bod y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd sy'n creu gofod llawr ychwanegol net o 100 metr sgwâr neu fwy, neu sy'n creu annedd newydd, yn agored i orfod talu'r ardoll.

**37.** Dywedodd tystion wrth y Pwyllgor mai dim ond 10% o ddatblygiadau sy'n denu cytundeb Adran 106 ond am amryw resymau – adnoddau a chapasiti'r awdurdod, gwasanaethau eraill / ymgyngoreion statudol nad ydynt yn cymryd rhan yn y broses a phris tir – nid ydynt yn llwyddo ar sawl achlysur. Yn ogystal, mae'r defnydd o gytundebau a.106 yn amrywio'n fawr rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol gydag ardaloedd trefol mwy o faint â mwy o le nag ardaloedd gwledig llai. Mae dulliau cadarnhaol wedi'u datblygu mewn nifer o Awdurdodau Cynllunio Lleol gan gynnwys Bro Morgannwg. Fodd bynnag, fel system, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw cytundebau a.106 yn cefnogi datblygu cynaliadwy.

**38.** Trwy gydol y sesiynau tystiolaeth, cododd tystion bryderon ynglŷn â chytundebau a.106 a chyfraniadau datblygwyr. Mae data cenedlaethol ar dai fforddiadwy[10] yn dangos bod y symiau a dalwyd mewn cytundebau a.106 yn gymharol fach. Mae adroddiad cynllunio blynyddol Llywodraeth Cymru yn nodi y bu cwymp sylweddol mewn cyfraniadau ariannol y cytunwyd arnynt gan ddatblygiadau newydd rhwng 2017-18 a 2018-19 trwy gytundebau a.106. Bu gostyngiad o oddeutu 45% (£18,166,149.03), ond bu cynnydd o tua 75% yn faint o gyfraniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol a gasglwyd (£1,281,478.10). Ar y cyfan, bu gostyngiad o oddeutu 40% mewn cyfraniadau ariannol (£16,884,670.91). Mae hyn yn bennaf oherwydd y cwymp yn ardal y tir a gafodd ganiatâd cynllunio dros y ddwy flynedd adrodd flaenorol. Fodd bynnag, y canlyniad terfynol yw bod llai o arian yn cael ei sicrhau i'w wario ar dai fforddiadwy.

**39.** Nododd tystion fod asesiad hyfywedd a.106 yn gymhleth a'i fod yn faes lle nad oes gan Awdurdodau Cynllunio Lleol y sgiliau na'r adnoddau bob amser i fuddsoddi mewn asesiadau cynhwysfawr. Mae hyn yn golygu nad yw costiadau yn aml yn cael eu llwyr ystyried ac wrth i gynigion datblygu fynd yn eu blaenau, mae angen ailedrych arnynt. Canfu'r Pwyllgor fod y wybodaeth a ddefnyddir i amcangyfrif cost datblygiadau yn amrywio. Mae rhai yn defnyddio costau adeiladu gwirioneddol ac mae eraill yn defnyddio data y Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu (BCIS).[11]

**40.** Clywodd y Pwyllgor fod gorfodi cytundeb a.106 a'i gwneud yn ofynnol bod datblygwr yn talu'r cyfraniadau y cytunwyd arnynt neu wrthod cynllunio yn benderfyniad gwleidyddol i Bwyllgorau Cynllunio ei wneud. Fodd bynnag, mae Pwyllgorau yn aml yn llacio a.106, yn rhannol oherwydd bod angen iddynt gyrraedd targedau cenedlaethol fel yr 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd. O ganlyniad, mae amharodrwydd i wrthod.

**41.** Nododd tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru fod Cynlluniau Datblygu Lleol wedi'u mabwysiadu mewn 23 o'r 25 Awdurdod Cynllunio Lleol (mae Cynllun ar y cyd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn). Mae hyn wedi cryfhau'r system a arweinir gan gynlluniau, ac mae hyn yn hanfodol i sefydlu'r polisi sylfaenol ar gyfer sicrhau bod a.106 yn gweithio. Fodd bynnag, er hyn, mae perfformiad wrth gyflawni a.106 yn parhau i fod yn heriol. Nid oedd y tystion yn credu bod yr opsiynau i fynd i'r afael â gwendidau a nodwyd gan y Pwyllgor â Swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnwys swyddi a rennir ac adnoddau a rennir i gryfhau arbenigedd yn

[10] Llywodraeth Cymru - StatsCymru, Cyfraniadau ariannol tuag at dai fforddiadwy trwy rwymedigaethau cynllunio yn ôl awdurdod lleol a swm, 14 Tachwedd 2019

[11] Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), Building Cost Information Service-construction

angenrheidiol, ond ni chyflwynwyd unrhyw opsiwn arall o ran sut i fynd i'r afael â hyn.

**42.** Amlygodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y potensial i wneud rhywfaint o waith pellach i ddeall yn well sut mae cytundebau a.106 yn gweithio mewn gwirionedd. O ystyried bod y data sydd ar gael yn eithaf cyfyngedig - dim ond yr arian gwirioneddol a dderbyniwyd ac nid y swm a nodwyd mewn cytundebau a.106 y mae'r data cyfredol yn ei fesur – nid yw'n bosibl graddio'r hyn y nodwyd sydd ei angen wrth gymeradwyo cais cynllunio a'r hyn a ddarperir mewn gwirionedd pan fydd y datblygiad wedi'i gwblhau. Daethom i'r casgliad fod angen ymchwil pellach gan sefydliad priodol ar gytundebau a.106 i ddeall y berthynas hon yn well.

**43.** Casgliad y Pwyllgor yw bod datblygwyr yn allweddol i wneud Cynllunio ac mae cytundebau a.106 yn hanfodol wrth gyflawni'r seilwaith ehangach sydd ei angen gyda thai newydd. Am sawl rheswm, fodd bynnag, nid yw'r system yn gweithio cystal ag y gallai ac mae angen arweiniad allanol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn.

## Cynllunio a Llesiant

**44.** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 â'r potensial i 'newid y tirwedd' gan roi ffocws newydd i brif bwrpas Cynllunio. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth i'r Pwyllgor ynghylch sut mae'r ffordd y mae Cynllunio yn bwrw ymlaen â rhaglen Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlygu bod llawer i'w wneud o hyd.

**45.** Er bod Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiweddaru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd yn gosod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar lefel genedlaethol, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dal i ddatblygu'r ymateb strategol lleol. Roedd tystion yn cydnabod bod yr ymateb gan Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi bod yn araf a bod angen llawer mwy o waith i wneud hyn yn ganolog i'r broses gynllunio.

**46.** Yn benodol, mae'n hollbwysig newid cydbwysedd y broses o wneud penderfyniadau, dylunio cynlluniau a chymeradwyo o feddylfryd "a yw'n ddigon drwg i'w wrthod" i feddylfryd "a yw'n ddigon da i'w gymeradwyo". I wneud hyn, bydd angen peth asesiad systematig o effaith er mwyn deall yn well sut mae penderfyniadau cynllunio a datblygiadau dilynol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i fywydau, lles a gwerth personol pobl.

**47.** Mae'r offeryn data a gyhoeddwyd ochr yn ochr ag adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol sy'n dangos barn dinasyddion ar Gynllunio yn dangos nad yw'r newid hwn yn amlwg i'r cyhoedd:

- Nid yw dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn credu bod awdurdodau cynllunio yn gwneud y penderfyniadau cywir sy'n gwella'r ardal y maent yn byw ynddi;
- Mae llai nag 1 o bob 10 o bobl yn credu bod ansawdd a chyflwr yr amgylchedd lleol wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf; a
- Nododd yr holl ymatebwyr nad yw'r cyfleoedd i gael gwaith wedi newid na gwaethygu.

**48.** Yn yr holl enghreifftiau uchod, roedd barn uwch swyddogion cynllunio bob amser yn fwy cadarnhaol na barn dinasyddion, gan nodi gwahaniaeth mewn safbwyntiau rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r dinasyddion y maent yn eu gwasanaethu.

**49.** Roedd yr holl dystion yn ei gwneud yn glir bod Cynllunio yn un o'r gwasanaethau sylfaenol a all gyflawni a gwireddu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O ran cefnogaeth a pholisi Llywodraeth Cymru ar ffurf Cylchlythyrau a'r canllawiau diweddaraf, mae'r rhain yn helpu i ganolbwyntio ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn gwneud cysylltiadau rhwng y gwaith cynllunio a datblygu cynaliadwy. Yn ôl sawl tyst, yr anfantais yw bod gormod o newid yn dal i fod yn y system ac mae llif y diweddariadau polisi yn gwneud gwaith yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn fwy cymhleth. Yn benodol, mae angen cydgrynhoi'r holl ddeddfwriaeth yn un gyfraith gynllunio i Gymru er mwyn helpu i sicrhau cysondeb mewn penderfyniadau.

**50.** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gadarn nad oes angen symleiddio cyfraith cynllunio a'i gweithrediad, a bydd creu Arolygiaeth Gynllunio benodol i Gymru yn cyfrannu at gyflawni hyn. Roedd tystiolaeth gan dystion yn dangos bod yr Arolygiaeth Gynllunio ar hyn o bryd yn tueddu i gysylltu cyfraith gynllunio Lloegr i Gymru, gan olygu nad yw'r penderfyniadau a wneir ganddynt yn adlewyrchu'r system gynllunio wahanol yng Nghymru.

**51.** Nododd tystion fod hyn yn cyfrannu at y problemau y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn eu hwynebu wrth weithredu Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac yn arbennig yr elfennau sy'n cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 lle mae'r dystiolaeth yn dangos y methiannau pennaf.

**52.** Rydym yn nodi i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol gyhoeddi ym mis Mai 2019 fod gwaith wedi dechrau i greu arolygiaeth gynllunio benodol newydd ar wahân i Gymru. Roedd datganiad y Gweinidog hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru:

> "yn crynhoi ac yn uno cyfraith gynllunio yng Nghymru i greu cod cynllunio ar wahân ar gyfer Cymru."[12]

Rydym yn credu, ar sail y dystiolaeth ynghylch beth sy'n digwydd yn ymarferol, y byddai parhau â chyd-arolygiaeth yn golygu na fydd cyfraith Cymru yn cael ei gweithredu'n llawn, felly rydym yn croesawu ac yn cymeradwyo dull Llywodraeth Cymru o greu arolygiaeth gynllunio ar wahân.

**53.** Roedd tystiolaeth i'r Pwyllgor yn dangos y gall Awdurdodau Cynllunio Lleol gael eu tanbrisio gan bartneriaid allweddol ac o fewn Awdurdodau Unedol gan adrannau eraill o'r un awdurdod. Yn ôl tystiolaeth gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, nes y bydd gan Gynllunio le sefydlog yn y broses 'gwneud penderfyniadau' gan gael ei werthfawrogi'n strategol am ei gyfraniad at Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yna ni fydd pethau'n newid, ac ni fydd Cynllunio yn cyflawni'r hyn y mae Llywodraeth Cymru ei eisiau. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen mynd ati i godi statws Cynllunio a chydnabod pwysigrwydd canolog Cynllunio i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

[12] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, 9 Mai 2019

# Argymhellion

**54.** Mae'r Pwyllgor wedi nodi sawl maes lle mae'n credu y gellir gwella perfformiad ar hyn o bryd:

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r toriadau sydd wedi'u gwneud i gyllidebau Cynllunio gan ddefnyddio Pwerau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 i wella gwytnwch a meithrin capasiti. Dylai hyn gynnwys mesurau i sicrhau bod digon o rannu gwybodaeth rhwng y cyrff cynllunio ar wahân yn y DU er mwyn helpu i ddysgu a gwella arbenigedd.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i adolygu'r Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol cyfredol i sicrhau bod y mesurau a ddefnyddir i farnu perfformiad ac effaith Cynllunio yn adlewyrchu cyfraniad yr holl asiantaethau yn y system Gynllunio ac yn datblygu mesurau newydd i bennu'n well beth yw effaith Cynllunio wrth wella llesiant mewn cymunedau ac ymhlith pobl.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i adolygu'r safonau cyfredol ar gyfer ymgysylltu a datblygu dulliau newydd sy'n adlewyrchu dulliau cyfathrebu'r 21ain Ganrif yn well i sicrhau bod pobl yn cymryd rhan yn y broses gynllunio.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i gryfhau sut mae datblygwyr yn ymgynghori â chymunedau lleol cyn gwneud cais am ddatblygiadau mawr neu sylweddol.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i wneud Creu Lleoedd a Chynlluniau Lleoedd yn gynllun statudol, ac yn cyflwyno canllawiau sut y mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol weithio gyda chymunedau lleol i sicrhau bod Cynllunio Lleoedd yn greiddiol i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cryfhau cytundebau Adran 106 trwy:

- ddiweddaru canllawiau i'w gwneud yn ofynnol bod arfarniadau opsiynau datblygu yn seiliedig ar un ffynhonnell wybodaeth, gan ddefnyddio data adeiladu'r gwasanaeth gwybodaeth costau adeiladu i wella amcangyfrifon, cyngor ar gostau, cynlluniau costau. a meincnodau; a

- chyflwyno system talu cyfrannau ar gyfer cyfraniadau Adran 106, gan osod gofyniad ar ddatblygwyr i dalu traean o'r swm cytunedig ar adeg rhoi'r caniatâd cynllunio; traean pan fo'r gwaith datblygu'n dechrau ar y safle; a thraean pan fo'r safle wedi gorffen cael ei datblygu.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil ar ddefnyddio cytundebau adran 106 i benderfynu a yw'r cyfraniadau a nodwyd gan ddatblygwyr wrth gytuno ar gais cynllunio yn cael eu gwireddu. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i werthuso sut mae cytundebau adran 106 yn gweithio gan nodi lle mae angen cryfhau dulliau gan gynnwys darparu adnoddau ar gyfer arbenigedd cyfreithiol a rheoli cytundebau adran 106.

**Argymhelliad 8.** Er ein bod yn croesawu dull Llywodraeth Cymru o sefydlu Cod Cynllunio Cymru, o ystyried y gwahaniaeth yn y systemau Cynllunio rhwng Cymru a Lloegr, mae'r Pwyllgor yn argymell bod hyn yn mynd yn bellach na Chod ac yn cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth i helpu i sicrhau cysondeb mewn penderfyniadau.

Nid oedd Gareth Bennett AS yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

# Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweldtrawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **27 Ionawr 2020** | Cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad preifat i drafod y sefyllfa bresennol gyda rhanddeiliaid yn cynrychioli Tai Cymunedol Cymru, y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai, Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol |
| **10 Chwefror 2020** | **Andrew Farrow**<br>Cyngor Sir y Fflint<br>**Mark Hand**<br>Cyngor Sir Sir Fynwy<br>**Craig Mitchell**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Nicola Pearce**<br>Cyngor Castell-nedd Port Talbot<br>**Llinos Quelch**<br>Cyngor Sir Caerfyrddin<br>**Dr Roisin Willmott**<br>Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol |
| **24 Chwefror 2020** | **Nick Bennett**<br>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>**Sophie Howe**<br>Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>**Marie Brousseau-Navarro**<br>Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| **9 Mawrth 2020** | **John Howells**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Neil Hemington**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Andrew Slade**<br>Llywodraeth Cymru |